# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 2**

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

**PENNOD 5**

GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD Â HENEBION COFRESTREDIG

*Hysbysiadau stop dros dro*

PROSPECTIVE

## 34 Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—

(a) na fo'r gwaith a bennir mewn hysbysiad stop dros dro, ar yr adeg y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith, yn golygu torri adran 11 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) nac amod y rhoddwyd cydsyniad heneb gofrestredig yn ddarostyngedig iddo, neu

(b) bo Gweinidogion Cymru yn tynnu'n ôl hysbysiad stop dros dro ar ôl iddo gymryd effaith.

(2) Nid yw'r adran hon yn gymwys yn rhinwedd is-adran (1)(b) pan—

(a) bo cydsyniad heneb gofrestredig wedi ei roi ar gyfer y gwaith a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro ar ôl i'r hysbysiad gymryd effaith, a

(b) bo Gweinidogion Cymru yn tynnu'r hysbysiad yn ôl ar ôl i'r cydsyniad hwnnw gael ei roi.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 34 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(3) Mae gan unrhyw berson a chanddo fuddiant yn yr heneb neu'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi neu ag ef ar yr adeg y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith hawlogaeth, wrth wneud hawliad i Weinidogion Cymru, i gael ei ddigolledu ganddynt am unrhyw golled neu unrhyw ddifrod a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith yr hysbysiad.

(4) Mae'r golled neu'r difrod y mae digolllediad yn daladwy amdani neu amdano yn cynnwys unrhyw swm sy'n daladwy gan yr hawlydd mewn cysylltiad â thor contract a achosir drwy gymryd camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r hysbysiad.

(5) Nid oes digolllediad yn daladwy o dan yr adran hon am golled neu ddifrod y gallai'r hawlydd fod wedi ei hosgoi neu ei osgoi—

(a) drwy ddarparu gwybodaeth yr oedd hysbysiad gwybodaeth a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 197 yn ei gwneud yn ofynnol i'r hawlydd ei darparu, neu

(b) drwy gydweithredu â Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd arall wrth ymateb i hysbysiad o'r fath.

(6) Rhaid i hawliad am ddigolllediad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 6 mis sy'n dechrau—

(a) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(a) ond nid o fewn is-adran (1)(b), â'r diwrnod y mae'r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith;

(b) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(b), â'r diwrnod y mae'r hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 34 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 34 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
- s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
- s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
- s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
- s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)